

## Competition Brief

<b>Competition title</b>
Food Preparation (Inclusive Skills)
<b>Competition overview</b>
Competitors will be required to prepare a breakfast platter. This competition will test competitor's knowledge and skills in the following areas: Health and safety, hygiene, knife skills, use of equipment, presentation skills and knowledge of flavour combinations. Competitors will be given 1 hour to prepare and serve a breakfast platter with a healthy theme for two people, plated separately. Competitors will not be able to use an oven or heat. Competitors will then have 20 minutes to complete the Mystery Box task, which they will receive the ingredients for on the day.
<b>Entry criteria</b>
This competition is for learners at Entry Level 2 working towards Entry 3. Competitors must be 16 years of age or over. A statement of support that outlines any individual needs of the competitor within the competition must be submitted along with entry form.
<b>Number by location/organisation</b>
Maximum of 2 per location and 3 per organisation.
<b>Brief</b>
<b>Task One: Healthy breakfast platter- 1 hour</b> EACH breakfast platter is to include four elements: <ul style="list-style-type: none"><li>• A sliced wholemeal bagel, topped with ingredients of competitor's choice.</li><li>• American pancakes stacked and decorated with ingredients of competitor's choice.</li><li>• A healthy oats based breakfast idea of competitor's choice.</li></ul>
<b>Task 2: Mystery Box – 20 minutes</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mystery Box will be revealed on the day of the competition for inclusion in the platter – this element will showcase the competitor's knife skills specifically their ability to prepare, slice/chop and present a selection of mystery ingredients.</li></ul>

**To be proved by the host:**

- Equipment (unless stated) will be provided.
- 2 un-cut wholemeal bagels.
- 4 Pre-made plain American pancakes.
- Ingredients for Mystery Box

**To be provided by the competitor:**

- Own uniform and PPE
- Platters/platters (x2) of own choice to present the breakfast items.
- Additional ingredients to prepare the bagel and pancakes i.e, fruits, cooked meat, cream, cream cheese.
- All the ingredients for the healthy oats-based breakfast idea of competitor's choice.
- Display equipment / container for oats-based breakfast idea of your competitor's choice.
- The breakfast items must be designed the same for each serving.

**Infrastructure List**

**Resources provided:** knife, spoon, chopping board, workstation, fridge space, freezer.

**We will provide:** 2 un-cut wholemeal bagels, 4 pre-made plain American pancakes, ingredients for Mystery Box

**You will need to bring:** own uniform and PPE, plates/presentation platter (x2), additional ingredients of your own choice to prepare bagel and pancakes, display equipment/container for oats-based breakfast.

**Competition rules**

Competition specific rules:

- Competitors will receive a health and safety briefing at the start of the competition.
- Competitors will start, and finish work as instructed by the judges
- Competitors must provide their own uniform and PPE. Support staff accompanying in the competition area will also be required to adhere to PPE requirements.
- Any specialist equipment required to meet individual needs of the competitor must be provided by the competitor / entering organisation.
- A statement of support that outlines any individual needs of the learner within the competition - i.e.: support with communication etc. will need to be completed.

- Competitors who arrive late for the event will not receive additional time.
- Competitors will start, and finish work as instructed by the judges.
- If there is a power stoppage, breakdown of equipment or accident, the competitors must act accordingly to the instruction of the organiser.
- If during the competition a competitor feels they must leave their work (e.g.: medical reasons, toilet break), they will have the time recorded on a 'time out' sheet by a member of staff.
- No mobile telephones are allowed in the competition room.
- The judges' decision is final.
- Photographs will be taken during the event that may be used for marketing/publicity purposes – if the competitor / support staff cannot have their photo taken it is the responsibility of the college entering the competition to notify the organisers beforehand and at the event.
- Only one member of support staff will accompany the competitor from your organisation – unless otherwise stated on the statement of support.
- Competitors must only receive agreed support that is outlined in their support statement. Support that is deemed to be outside that given in the support statement could result in the competitor being disqualified from the competition.

### **Generic competition rules**

- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

### **Marking and assessment**

Brief marking and assessment criteria:

<b>Criteria</b>	<b>Allocated marks</b>
Correct use of equipment	10%
Presentation, creativity and style	20%
Utilisation of ingredients and equipment	20%

Taste	20%
Time keeping	10%
Personal hygiene and safety	20%
<b>Total</b>	<b>100%</b>

### Feedback and recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. (Written feedback will not be provided)

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

Certificates of Participation will be issued on the day and photographs will be taken.

Medallists will be invited to a Celebration Event which will be held on 19th March 2020 at Sophia Hall, Sophia Gardens, Cardiff CF11 9XR from 12pm to 5 pm, where the First, Second and Third Awards will be presented. <https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html>

### Competition Lead

#### Lead Contact

Kim Williams - [kim.williams@briantraining.com](mailto:kim.williams@briantraining.com) or 01938 555893

#### Expert Contacts

Katy Godsell - [katy@briantraining.com](mailto:katy@briantraining.com) or 01938 555 893 **Opt: 4**

## Briff y Gystadleuaeth

<b>Teitl y gystadleuaeth</b>
Paratoi bwyd Cynhwysol
<b>Trosolwg o'r gystadleuaeth</b>
<p>Bydd angen i'r cystadleuwyr baratoi platiad ar gyfer brecwast.</p> <p>Bydd y gystadleuaeth hon yn profi gwybodaeth a sgiliau'r cystadleuwyr yn y meysydd canlynol: lechyd a diogelwch, hylendid, sgiliau defnyddio cyllell, defnydd o offer, sgiliau cyflwyno a gwybodaeth am gyfuniadau blas.</p> <p>Fe gaiff cystadleuwyr <b>1 awr</b> i baratoi a gweini platiad brecwast ar gyfer dau berson wedi eu gweini ar ddau blât ar wahân, gyda thema <b>iach</b>. Ni chaiff cystadleuwyr ddefnyddio popty/ffwrn na gwres. Yna, fe gaiff cystadleuwyr <b>20 munud</b> i gwblhau'r dasg Bocs Dirgel, lle byddan nhw'n derbyn y cynhwysion ar y diwrnod.</p>
<b>Meini prawf cystadlu</b>
<p>Mae'r gystadleuaeth hon ar gyfer dysgwyr ar Lefel Mynediad 2 sy'n gweithio at lefel Mynediad 3.</p> <p>Rhaid i'r cystadleuwyr fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn.</p> <p>Rhaid cynnwys datganiad o gefnogaeth sy'n amlinellu unrhyw anghenion fyddai gan y cystadluydd o fewn y gystadleuaeth gyda phob ffurflen gystadlu.</p>
<b>Nifer fesul lleoliad/sefydliad</b>
Uchafswm o 2 o bob lleoliad a 3 o bob sefydliad.
<b>Briff</b>
<b><u>Tasg Un: Platiad brecwast iachus – 1 awr</u></b>
<p>Dylai POB platiad brecwast gynnwys pedair elfen:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bagel blawd cyflawn wedi ei sleisio gan ddefnyddio cynhwysion o ddewis y cystadluydd i roi ar y bagel.</li><li>• Crempogau Americanaidd wedi eu pentyrru a'u haddurno â chynhwysion o ddewis y cystadluydd.</li><li>• Syniad am saig brecwast yn seiliedig ar geirch o ddewis y cystadluydd.</li></ul>
<b><u>Tasg Dau: Bocs Dirgel – 20 munud</u></b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflwynir y Bocs Dirgel ar ddiwrnod y gystadleuaeth i'w gynnwys yn y platiad – bydd yr elfen hon yn dangos sgiliau defnyddio cyllell y cystadluydd, yn benodol, eu gallu i baratoi, torri</li></ul>

/sleisio a chyflwyno amrywiaeth o gynhwysion dirgel.

**Darperir ar gyfer y cystadleuwyr:**

- Darperir yr offer (os na nodir yn wahanol).
- 2 bagel blawd cyflawn heb eu torri.
- 4 crempog Americanaidd wedi eu coginio.
- Cynhwysion ar gyfer y Bocs Dirgel.

**I'w darparu gan y cystadleuydd:**

- Gwisg addas a Chyfarpar Diogelu Personol
- Platau (*Platers/platters*) (x2) o'u dewis i gyflwyno'r eitemau brecwast.
- Cynhwysion ychwanegol i baratoi'r bagel, e.e. ffrwythau, cig wedi ei goginio, hufen, caws hufennog.
- Yr holl gynhwysion ar gyfer y saig brecwast yn seiliedig ar geirch o ddewis y cystadleuydd.
- Offer arddangos / daliwr ar gyfer y saig brecwast yn seiliedig ar geirch o ddewis y cystadleuydd.

Rhaid i'r eitemau brecwast gael eu cynllunio yn yr un modd ar gyfer pob saig.

### Rhestr Seilwaith

**Offer a ddarperir:** cyllell, llwy, bwrdd torri, gweithfan, oergell, rhewgell.

**Byddwn yn darparu:** 2 bagel heb eu torri, 4 crempog Americanaidd wedi eu coginio, cynhwysion ar gyfer y Bocs Dirgel.

**Bydd angen i chi ddod â:** Gwisg addas a Chyfarpar Diogelu Personol, platau / offer i gyflwyno'ch seigiau (x2), cynhwysion ychwanegol o'ch dewis i baratoi bagel a chrempogau, offer arddangos /daliwr ar gyfer y brecwast sy'n seiliedig ar geirch.

### Rheolau'r gystadleuaeth

**Rheolau penodol y gystadleuaeth**

- Bydd y cystadleuwyr yn cael briff iechyd a diogelwch ar ddechrau'r gystadleuaeth.
- Bydd y cystadleuwyr yn cychwyn a gorffen y gwaith yn ôl cyfarwyddiadau'r beirniaid.
- Rhaid i'r cystadleuwyr ddarparu gwisg addas a Chyfarpar Diogelu Personol. Bydd yn ofynnol i staff Cefnogi fydd yn dod gyda'r cystadleuwyr gadw at ofynion Cyfarpar Diogelu Personol yn ogystal.
- Rhaid i'r cystadleuydd /sefydliad sy'n cyflwyno'r cais, ddarparu unrhyw offer arbenigol sydd eu

hangen ar gyfer anghenion y cystadleuydd.

- Rhaid cwblhau datganiad o gefnogaeth sy'n amlinellu unrhyw anghenion fyddai gan y cystadleuydd o fewn y gystadleuaeth - h.y. cefnogaeth gyda chyfathrebu ayb
- Ni fydd cystadleuwyr sy'n cyrraedd yn hwyr yn cael amser ychwanegol.
- Os bydd toriad ar y cyflenwad trydan, offer yn torri neu ddamwain, rhaid i'r cystadleuwyr ymateb i gyfarwyddyd y trefnydd.
- Yn ystod y gystadleuaeth, os fydd unrhyw gystadleuydd angen gadael eu gweithfan (e.e. rhesymau meddygol, toiled), bydd yr amser yn cael ei gofnodi ar daflen 'amser allan' gan aelod o staff.
- Ni chaniateir ffonau symudol yn yr ystafell gystadlu.
- Mae penderfyniad y beirniad yn derfynol.
- Bydd lluniau'n cael eu tynnu'n ystod y digwyddiad ar gyfer marchnata / cyhoeddusrwydd - os na ellir tynnu llun cystadleuydd / staff cefnogi, cyfrifoldeb y coleg sy'n cyflwyno enw'r cystadleuydd yw hysbysu'r trefnwyr o flaen llaw ac yn ystod y digwyddiad.
- Un aelod o staff cefnogi o'ch sefydliad yn unig sy'n cael hebrwng y cystadleuydd os na nodir yn wahanol ar eich datganiad o gefnogaeth.
- Dim ond y gefnogaeth a amlinellir ar y datganiad o gefnogaeth gaiff ei roi i'r cystadleuydd. Gallai'r cystadleuydd gael ei wahardd o'r gystadleuaeth os teimlir bod cefnogaeth y tu hwnt i'r hyn a amlinellir yn y datganiad o gefnogaeth yn cael ei roi.

#### **Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**

- Dylid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gystadleuaeth.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y gystadleuaeth at y panel beirniaid.
- Ni ddylai'r cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd fydd cyrraedd ar amser ar gyfer pob rhan o'r gystadleuaeth. Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr, ni roddir amser ychwanegol.
- Pe bai rhyw wall technegol ar eich offer, dylid rhoi gwybod i'r panel beirniaid yn syth. Bydd amser ychwanegol yn cael ei roi os bydd y gwall y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac asesu

Meini prawf macio ac asesu cryno:

Meini prawf	Marciau wedi'n dyrannu
Defnydd cywir o offer	10%
Cyflwyniad, Creadigedd ac Arddull	20%
Blas	20%
Defnydd o gynhwysion ac offer	20%
Amseru	10%
Hylendid Personol a Diogelwch	20%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100%</b>

## Adborth a chydabyddiaeth

Bydd adborth llafar, yn unigol ac mewn grŵp, yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth. (Ni roddir adborth ysgrifenedig)

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau'n cael eu dyfarnu ar y diwrnod oherwydd bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

Bydd Tystysgrifau Cyfranogi'n cael eu dosbarthu ar y diwrnod.

Bydd enillwyr medalau'n cael eu gwahodd i Achlysur Dathlu a gynhelir ar 19 Mawrth 2020 yn Neuadd Sophia, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9XR rhwng 12pm a 5pm, lle bydd y Gwobrau Cyntaf, Ail a Thrydydd yn cael eu cyflwyno. <https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html>

## Arweinwyr y Gystadleuaeth

### Prif Gyswllt

Kim Williams [kim.williams@cambriantraining.com](mailto:kim.williams@cambriantraining.com) 01938 555 893

### Cysylltiadau Arbenigol

Katy Godsell [katy.godsell@cambriantraining.com](mailto:katy.godsell@cambriantraining.com) 01938 555 893 Dewis: 4